

**Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â
phrosesu data personol gan yr ysgol at
ddibenion rheoli ymddygiad a gwahardd
disgyblion**

(Fersiwn 1.1 – er 21.02.2023)



MAE EICH DATA O BWYS

YOUR DATA MATTERS

Ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd yma

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n ymwneud â phrosesu data personol gan ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu CBSRhCT). Mae e hefyd yn berthnasol i ddata personol sy'n cael ei brosesu gan ysgolion ffydd yn RhCT sy'n cael eu hariannu'n wirfoddol.

Cliciwch [yma](#) am restr lawn o'r ysgolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol iddyn nhw.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma wedi'i ddarparu gan CBSRhCT ar gyfer ac ar ran ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar ddiogelu data.

Cyflwyniad

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd yma yw rhoi gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion, gan gynnwys ei disgyblion presennol, blaenorol a darpar ddisgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (yn yr hysbysiad bydd 'rhieni' yn cyfeirio at y rhain) at ddibenion rheoli ymddygiad a gwahardd disgyblion.

Er ein bod ni wedi ceisio gwneud yr hysbysiad preifatrwydd yma mor glir a chryno â phosibl, mae'n bosibl y bydd y categorïau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu yn amrywio yn dibynnu ar ymddygiad a gwaharddiadau'r disgybl. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi yn ymwneud ag achos penodol, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylech chi ddarllen yr hysbysiad hwn yn ogystal â dogfennau canlynol yr ysgol:

- Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- Polisi Perthnasoedd ac Ymddygiad Cadarnhaol

Y Rheolydd Data

Yr ysgol yw'r rheolydd data ar gyfer y data personol rydyn ni'n ei brosesu, oni bai bod nodyn yn dweud fel arall. Mae hyn yn cynnwys y data personol sy'n cael ei brosesu gan y Corff Llywodraethu, y Pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cymorth, ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolydd data.

Sut i gysylltu â ni ynglŷn â materion neu bryderon diogelu data

Arweinydd Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data gan ddefnyddio ein dulliau cyswllt arferol – dros y ffôn, e-bost, post ac wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Cliciwch [yma](#) am fanylion cyswllt yr ysgol.

Y Swyddog Diogelu Data

Mae CBSRhCT yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ynglŷn â materion diogelu data. Fodd bynnag, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn benodol, mae modd i chi wneud hynny drwy e-bostio'r cyfeiriad canlynol:

- Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Rydyn ni'n argymhell, wrth i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, eich bod chi'n anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol, a hithau'n rheolwr data.

Y data personol rydyn ni'n ei brosesu

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol at ddibenion rheoli ymddygiad a gwahardd disgyblion:

Data personol disgyblion

- Dynodwyr personol – megis enw, cyfeiriad, oedran, dyddiad geni, blwyddyn dosbarth ac ati.
- Nodweddion – megis hil, tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal ac ati.
- Gwybodaeth ymddygiadol yn gyffredinol – cadarnhaol a negyddol.
- Manylion am y digwyddiad – megis dyddiad/amser yr achlysur, natur yr achlysur, y bobl dan sylw, lleoliad y digwyddiad, yr ymchwiliad i'r digwyddiad, y camau sydd wedi'u cymryd, tystiolaeth, datganiadau tystion, canlyniad ac ati.
- Manylion y gwaharddiad – megis dyddiadau, hyd y gwaharddiad, y rheswm dros wahardd, y math o waharddiad, y trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn dilyn gwaharddiad.
- Gwybodaeth yn ymwneud ag apelio gwaharddiadau.

Data personol y rhieni/gwarcheidwaid

- Dynodwyr personol – megis enw, cyfeiriad, oedran, dyddiad geni, blwyddyn dosbarth ac ati.
- Gohebiaeth/cyswllt yn ymwneud ag ymddygiad a gwahardd disgyblion.
- Gwybodaeth yn ymwneud ag apelio gwaharddiadau.

Pam rydyn ni'n prosesu data personol

Rydyn ni'n prosesu'r data personol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol sy'n ymwneud ag ymddygiad a gwahardd disgyblion. Mae modd i hyn gynnwys y gweithgareddau canlynol ymhlith rhai eraill:

- cofnodi manylion ymddygiad cadarnhaol neu negyddol, gan ddyfarnu pwyntiau haeddiant/dim haeddiant
- monitro ymddygiad
- Trefniadau rhoi gwybod statudol a mewol
- ymchwilio a chofnodi 'digwyddiadau' o ymddygiadau negyddol
- ble y bo'n addas, cyfeirio achosion difrifol o ymddygiad negyddol at asiantaethau eraill megis yr heddlu
- asesu a phenderfynu ar gamau priodol i reoli ymddygiad negyddol
- cyfeirio gwaharddiadau at y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion
- cofnodi gwaharddiadau
- rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid (personau perthnasol) am waharddiad
- rheoli'r gwaharddiad, e.e. gweithio set, trefnu cymorth addysgol yn ystod cyfnod y gwaharddiad, trosglwyddo yn ôl i ddysgu yn yr ysgol yn dilyn cyfnod o waharddiad
- trefnu gwasanaethau cymorth perthnasol i'r disgybl – er enghraifft gan Wasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol, e.e. Seicoleg Addysg, Cymorth/Cynnal Ymddygiad, neu asiantaethau a gwasanaethau partner, e.e. Cwnsela Llygad i Lygad
- rheoli apeliadau yn erbyn gwaharddiadau

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol

Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol i gynnal ein swyddogaethau statudol mewn perthynas ag ymddygiad a gwaharddiadau yw:

- **Rhwymedigaeth Gyfreithiol - Erthygl (c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.**
- **Tasg Gyhoeddus** - Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.
- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** - Erthygl 9 (2) (g) - prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau a chanllawiau sy'n ategu hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i;

- Deddf Addysg 2002, Adran 52(4)
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004
- Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Symudiadau Wedi'u Rheoli Effeithiol

Gan bwy ac o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n derbyn data personol gan yr unigolion neu'r sefydliadau canlynol yn dibynnu ar ymddygiad disgyblion, y cymorth sydd ei angen i reoli'r ymddygiad a'r asiantaethau sy'n gysylltiedig:

- Disgybl
- Rhieni/gwarcheidwaid
- Staff yr ysgol
- Corff llywodraethu
- Y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion
- Paneli Apelio Annibynnol
- Gwasanaethau cymorth yr Awdurdod Lleol – megis Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth, gwasanaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Gwasanaethau i Blant, Cymorth i Lywodraethwyr, Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth
- Gwasanaethau ac asiantaethau cymorth allanol – yr heddlu, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Cludiant Gofal Hygyrch (ACT)
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol

Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu data personol â'r sefydliadau allweddol canlynol i reoli ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion.

Dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei rhannu. Bydd y math o wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'r bobl y mae'n cael ei rhannu â nhw yn dibynnu ar ymddygiad y disgybl, y cymorth sydd ei angen i reoli'r ymddygiad a'r asiantaethau sy'n rhan o bethau.

Pwy	Diben
Yr Awdurdod Lleol (CBSRhCT) – Gwasanaethau Cymorth	<p>Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth</p> <p>Athro Atal Gwaharddiadau ac Ymyrraeth sy'n gyfrifol am roi arweiniad i ysgolion o ran rheoli gwaharddiadau'n briodol ac o ran ceisio lleihau eu nifer a'u hyd.</p> <p>Bydd y pennaeth yn llunio adroddiad yn cynnwys data personol a gwybodaeth berthnasol arall i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ynglŷn â'r gwaharddiad.</p> <p>Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)</p> <p>Mae'r gwasanaeth AHY yn rhoi cymorth i ysgolion drwy ddarparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd am fwy na 15 diwrnod yn olynol, ac ar gyfer y rheini sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol.</p> <p>Bydd data personol yn cael ei rannu gyda'r gwasanaeth AHY pan mae disgybl yn cael ei wahardd am gyfnod o amser neu'n barhaol.</p> <p>Cymorth i Lywodraethwyr</p> <p>Bydd data personol yn cael ei rannu gyda Chymorth i Lywodraethwyr i hwyluso'r broses apelio pan fo rhiant/gwarcheidwad yn dymuno gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion.</p>
Gwasanaethau ac asiantaethau cymorth allanol	<p>Bydd gwasanaethau cymorth yn amrywio yn dibynnu ar y cymorth/ymyrraeth sydd ei angen i reoli ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion, ond mae modd iddyn nhw gynnwys cymorth gan sefydliadau megis:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

	Os oes gyda chi ymholiad penodol ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'ch plentyn, cysylltwch â'r ysgol.
Y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion	Bydd y pennaeth yn darparu adroddiad sy'n cynnwys data personol i'r Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn ymwneud â'r gwaharddiad. Bydd y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion yn cyfarfod i drafod y gwaharddiad a dilysu penderfyniad y pennaeth.
Paneli Apelio Annibynnol	Bydd data personol yn cael ei rannu gyda'r Panel Apelio Annibynnol i hwyluso'r broses apelio pan fo rhiant/gwarcheidwad yn dymuno anghytuno â phenderfyniad y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion.
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC)	Bydd data personol yn cael ei rannu gyda'r tribiwnlys pan fydd cyhuddiad o wahaniaethu ar sail anabledd wedi'i wneud.
Ysgolion eraill	Er mwyn hwyluso symudiad wedi'i reoli o ganlyniad i ymddygiad/gwaharddiadau.
Yr heddlu	Bydd data personol yn cael ei rannu gyda'r heddlu mewn perthynas ag achos difrifol o ymddygiad negyddol os ydy hynny'n golygu bod angen cynnwys yr heddlu (e.e. gweithgaredd troseddol). Mewn rhai achosion, efallai y bydd gofyn i Swyddog Cyswllt yr Heddlu roi cymorth i'ch ysgol chi i fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud ag ymddygiad. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda'r disgybl a/neu rieni/gwarcheidwaid.
Yr Awdurdod Lleol (CBSRhCT) – Carfan Data Consortiwm Canolbarth y De Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Ffurflenni/adroddiadau statudol • Gwella Ysgolion

Proseswyr data

Mae prosesydd data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn eu defnyddio mewn perthynas â rheoli ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion:

- Cyflenwyr systemau/darparwyr gwasanaethau TG

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar sail ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth â'r data personol heb i ni eu cyfarwyddo nhw. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r wybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n ei dal yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data personol?

Rydyn ni'n cadw'r data personol sydd wedi'i gynnwys yn y cofnodion ymddygiad a gwaharddiadau fel a ganlyn.

Cofnod	Darpariaeth Statudol	Cyfnod cadw'r wybodaeth
Ffeil ymddygiad	Dd/B	Blwyddyn gyfredol + 1 flwyddyn
Cofnod o gosbau sydd wedi'u rhoi i ddisgyblion am gamymddwyn difrifol	Dd/B	3 blynedd ar ôl dyddiad y cofnod
Mae gwaharddiadau (cyfnod penodol neu barhaol) yn rhan o gofnod addysgol y disgybl	Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011	Tan eu pen-blwydd yn 25 oed I'w drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd os yw'n briodol
Gwaharddiadau – dyletswydd i roi gwybod. Mae modd ei ddsbarthu â llaw neu drwy'r post dosbarth cyntaf	Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003	Tan eu pen-blwydd yn 25 oed I'w drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd os yw'n briodol
Darparu gwybodaeth i'r awdurdod addysg lleol	Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003	Tan eu pen-blwydd yn 25 oed I'w drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd os yw'n briodol

Er mwyn dilyn egwyddor storio data Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fydd yr holl ddata personol ddim yn cael ei gadw. Dim ond data personol sy'n berthnasol sy'n cael eu cadw am y cyfnod cyfan. Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn y tymor hir neu sy'n amherthnasol yn dystiolaethol ei dinistrio yn y cwrs busnes arferol.

Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gyda chi y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm ni dros brosesu eich data personol.

Eich hawl i gael mynediad

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol. Mae ambell i eithriad sy'n golygu efallai na fyddwch chi bob amser yn derbyn yr holl ddata rydyn ni'n ei brosesu. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gael eich data wedi'i gywiro

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gael eich data wedi'i ddileu

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu eich data personol o dan amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio eich data

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl chi i wrthwynebu'r defnydd o'ch data

Mae hawl gyda chi i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Eich hawl chi i hygludedd data

Dim ond i ddata personol rydych chi wedi'i roi i ni y mae hyn yn berthnasol. Mae hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol gwnaethoch chi ei roi i ni o un sefydliad i'r llall neu ei roi e i chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol dim ond os ydyn ni'n prosesu'r data personol gyda'ch caniatâd chi neu'n rhan o sgysiaau am ymrwymo i gontract a bod y prosesu'n cael ei wneud yn awtomatig. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.](#)

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae gyda ni fis i ymateb i'ch cais chi o'r dyddiad dilysu eich cais. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau oddi wrthoch chi.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut i'w defnyddio, cyfeiriwch at yr adran ['Eich Hawliau Gwybodaeth'](#) ar wefan y Cyngor.

Eich hawl chi i wneud cwyn diogelu data i'r ysgol

Mae hawl gyda chi i gwyno i'r Cyngor os ydych chi'n credu dydyn ni ddim wedi trin eich data personol yn gyfrifol nac yn unol ag arfer da.

Os oes gyda chi bryder, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy alwad ffôn syml neu e-bost. Os hoffech chi wneud cwyn ffurfiol, mae modd gwneud hynny gyda'n [Polisi Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno](#).

Eich hawl chi i wneud cwyn diogelu data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: <https://cy.ico.org.uk>

Rheoli'r Fersiwn

Rhif y Fersiwn	Dilys o	Dilys hyd at	Sylwadau
1.0	10.08.2022	21.02.2023	Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol.
1.1	21.02.2023		Adolygwyd 21.02.2023 yn unol â gwelliant i fersiwn Saesneg.